



Adolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 553A2015

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn eu swyddi unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth sy'n berthnasol i'r ddogfen hon, cyfeirir at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod ar gyfer adran 45 yn nodi'r arferion a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ddelio â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Yng nghyswllt y ddogfen hon, ystyrir Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Aelodau'r tîm a gyflawnodd y gwaith oedd Anne Beegan, Gareth Lewis a Stephen Pittey.

Cynnwys

Mae lefelau buddsoddiad Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn TGCh yn cymharu'n dda â chyrrff eraill GIG Cymru, ond mae ein gwaith diagnostig yn dangos y gellid gwella'r ymgysylltu â'r agenda TGCh glinigol a'r elfennau hyfforddiant, integreiddio a chadw cofnodion o gyfnodau segur.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Asesiad cryno	5
Argymhellion	10

Adroddiad diagnostig

Mae'r gwariant ar TGCh yn uwch nag unrhyw fwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd arall yng Nghymru	11
Mae'r lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch nag unrhyw fwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd arall yng Nghymru	13
Er bod barn y staff yn gadarnhaol ar y cyfan mae lefel yr ymrwymiad i TGCh glinigol yn is na chyrrff iechyd eraill, ac mae'n bosib bod cyfle i integreiddio mwy	17
Mae argaeledd cyfrifiaduron yn cymharu'n ffafriol â chyrrff iechyd eraill yng Nghymru, ac mae'r staff yn fodlon â'r mynediad atynt	22
Mae dibynadwyedd systemau yn achosi problemau i'r staff, ac nid oes digon o gofnodion o gyfnodau segur ar gael ar gyfer llawer o systemau	23
Er bod bylchau o ran y trefniadau hyfforddi, mae'r staff yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio systemau yn fedrus ar y cyfan ac yn gallu dibynnu ar y wybodaeth sydd ar gael arnynt	25
Mae systemau TGCh glinigol yn helpu'r staff i gyflawni eu gwaith, ond mae'r staff yn teimlo bod y systemau'n anodd eu defnyddio	26

Atodiadau

Dull archwilio	28
Yr Egwyddor Sgoriau a ddefnyddiwyd i fesur lefel yr ymrwymiad i TGCh glinigol	29
Sylwadau testun rhydd a gyflwynwyd fel rhan o'r arolwg staff	31

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

1. Mae trefniadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) effeithiol yn rhan hanfodol o wasanaeth gofal iechyd modern o ansawdd uchel. Mae byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn dod yn fwy dibynnol ar TGCh – nid yn unig er mwyn sicrhau bod rhaglenni goruchwyllo a gwella iechyd y boblogaeth a gofal iechyd yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol, ond hefyd er mwyn gallu moderneiddio'r gwasanaeth, helpu i wella'r gwasanaeth a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Er mwyn cynnig gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, mae'n bwysig sicrhau bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol, ei bod yn gywir a'i bod ar gael yn rhwydd, yn ogystal â defnyddio systemau TGCh sy'n gadarn ac yn 'addas i'r diben'.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd TGCh¹. Yn ogystal â'i rhaglen genedlaethol ar gyfer gwybodeg, clustnododd hefyd becyn buddsoddi gwerth £25 miliwn dros dair blynedd ym mis Ebrill 2013. Sefydlwyd y pecyn buddsoddi hwn i helpu i drawsnewid y ddarpariaeth gofal iechyd ar lefel leol yng Nghymru drwy gyflwyno ffyrdd o weithio a thriniaethau newydd gan ddefnyddio technoleg fodern. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, neilltuodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £9.5 miliwn i ymddiriedolaethau a byrddau iechyd ledled Cymru.
3. Yn 2014, roedd trefniadau cynllunio newydd y GIG yn cynnwys gofynion i fyrrddau ac ymddiriedolaethau iechyd fanteisio ar gyfleoedd ym meysydd technoleg ac arloesi, ac i ddangos sut maent yn bwriadu sicrhau buddiannau yn sgil buddsoddiadau cyfalaf a buddsoddiadau seilwaith dros y tair blynedd nesaf. I gefnogi hyn, disgwylir bod gan fyrrddau ac ymddiriedolaethau iechyd strategaethau sy'n dangos sut maent yn bwriadu datblygu eu sylfaen asedau i fodloni anghenion gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys seilwaith ac offer TGCh a'r holl leoliadau gofal iechyd, gan gynnwys gofal sylfaenol.
4. Mae'r pecyn buddsoddi tair blynedd a gyflwynwyd wedi gwneud cryn dipyn i ddechrau cefnogi'r weledigaeth a amlinellwyd yn strategaethau Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno technoleg newydd. Fodd bynnag, nodwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar **Gyllid Iechyd** yn 2013 bod cyflwr asedau fel TGCh yn bur gymysg ar draws Cymru. Yn ôl yr adroddiad, amcangyfrifwyd bod angen oddeutu £68 miliwn o fuddsoddiad ym mis Mawrth 2014 i newid yr offer TGCh presennol a oedd wedi cyrraedd 'diwedd eu hoes', gyda'r ffigur hwn yn cynyddu i £83 miliwn erbyn mis Mawrth 2015. Mae cyflwr adnoddau TGCh, ynghyd ag asedau eraill a'r ystad, yn faich ychwanegol sylweddol ar gyllidebau gwariant cyfalaf a refeniw'r GIG ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

¹ Cyfeiriodd **Cynllun Oes** yn 2005 a **Law yn Llaw at Iechyd** yn 2011 at yr angen i sicrhau seilwaith gwybodaeth a chyfathrebu effeithiol sy'n helpu gwasanaethau i gynnig gofal iechyd o safon fyd-eang yng Nghymru. Pwysleisiwyd hyn ymhellach mewn datganiad ysgrifenedig gan Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ym mis Ebrill 2014.




-
5. Mae technoleg nad yw'n cael ei chynnal a'i chadw'n briodol a thechnoleg sydd wedi dyddio yn arwain at oblygiadau o ran ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a gynigir. Er mwyn newid i ddefnyddio un Cofnod Electronig am Gleifion mae'n bwysig bod systemau gwybodaeth glinigol wedi'u hintegreiddio â'i gilydd, a bod gwahanol safleoedd sy'n cynnig yr un gwasanaethau yn y sefydliad yn defnyddio'r un systemau. Mae diffyg mynediad priodol at wybodaeth glinigol oherwydd prinder cyfrifiaduron, gliniaduron ac ati, neu ddiffyg dibynadwyedd systemau clinigol, hefyd yn arwain at wasanaethau aneffeithlon ac yn peryglu gofal cleifion pan nad oes gwybodaeth glinigol ar gael.
 6. Yn sgil y pwysau cynyddol ar reffeniw a chronfeydd cyfalaf sy'n cael eu neilltuo i gyrff y GIG, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal adolygiad diagnostig manwl o gapasiti ac adnoddau TGCh er mwyn gweld i ba raddau mae'r adnoddau TGCh presennol ledled Cymru yn helpu'r broses o ddarparu gofal iechyd, ac i weld pa feysydd sydd angen mwy o sylw.
 7. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ymdrin ag ystod eang o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys atal sylfaenol, goruchwylio a chanfod clefydau yn gynnar ynghyd â rheoli clefydau trosglwyddadwy a bygythiadau amgylcheddol. Mae hefyd yn cynnwys gwella ansawdd gofal iechyd, llywio polisïau a rhoi ymyriadau a rhaglenni ar waith i wella iechyd a lles y boblogaeth. Adeg ein hadolygiad, roedd swyddogaethau TGCh yr Ymddiriedolaeth yn cael eu rhannu rhwng dau dîm. Roedd y tîm Gwybodeg Sgrinio yn rheoli systemau a seilwaith TGCh yr Adran Sgrinio, ac roedd tîm Gwybodeg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rheoli systemau a seilwaith TGCh holl wasanaethau a rhaglenni eraill yr Ymddiriedolaeth. Mewn rhai achosion, mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n rhannol ar drydydd partïon, fel Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).

Asesiad cryno







8. Mae'r adolygiad diagnostig yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata cymharol a safbwyntiau'r staff sy'n defnyddio systemau TGCh glinigol yn rheolaidd. Mae canfyddiadau'r dadansoddiadau data wedi'u nodi ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, ond mae Arddangosyn 1 yn cynnwys asesiad cryno sy'n defnyddio system goleuadau traffig i ddangos sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cymharu â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill yng Nghymru.
9. Rydym yn sylweddoli bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu mewn ffordd wahanol, a bod angen bod yn ofalus wrth ystyried cymariaethau rhwng yr Ymddiriedolaeth a chyrrff eraill y GIG ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad bod cymharu sefyllfa'r Ymddiriedolaeth â'r sefyllfa ledled Cymru yn ddefnyddiol er mwyn gweld pa elfennau y gallai'r Ymddiriedolaeth eu gwella, ond mae'n bosib bod rhesymau dilys dros berfformiad yr Ymddiriedolaeth.








10. Rydym wedi gofyn am farn staff nyrsio ar wardiau a staff meddygol ledled Cymru sy'n defnyddio systemau TGCh glinigol. Er mwyn cael safbwynt defnyddiol ar gyfer staff yr Ymddiriedolaeth, rydym wedi gofyn am farn grŵp ehangach o staff clinigol. Dyna pam nad yw ymatebion yr Ymddiriedolaeth wedi'u cynnwys yn y cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer barn staff, ond rhoddir y sefyllfa ledled Cymru er mwyn gallu cymharu. O ran yr Ymddiriedolaeth roedd ein sampl staff yn cynnwys 13 o staff clinigol, ac mae'r mwyafrif o'r rheini yn gweithio yn yr adran microbioleg. Mae rhagor o fanylion am ein dull archwilio wedi'u nodi yn **Atodiad 1**.
11. Ar sail y dadansoddiad hwn, rydym wedi dod i'r casgliad bod **lefelau buddsoddiad Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn TGCh yn cymharu'n dda â chyrff eraill GIG Cymru, ond mae ein gwaith diagnostig yn dangos y gellid gwella'r ymgysylltu â'r agenda TGCh glinigol a'r elfennau hyfforddiant, integreiddio a chadw cofnodion o gyfnodau segur.**









Arddangosyn 1: Asesiad cryno

Dangosydd	Perfformiad bwrdd iechyd	Sgôr perfformiad ²
Mae'r gwariant ar TGCh yn uwch nag unrhyw fwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd arall yng Nghymru		
Cyfanswm y gwariant ar TGCh	Cyfanswm y gwariant ar TGCh yw 3.8 y cant. Mae hyn yn fwy na'r argymhelliad, sef dau y cant o gyfanswm y gwariant refeniw, a dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru.	
Patrymau gwariant	Ers 2010-11, mae cyfanswm y gwariant ar TGCh wedi parhau i gynyddu, ond roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn ymwneud â gwariant cyfalaf yn unig.	-
Gallu denu cyllid ychwanegol ar gyfer TGCh	Cafwyd cyfanswm o £0.4 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer TGCh gan ffynonellau eraill yn ystod 2013-14. Mae hynny'n llai na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef £0.828 miliwn.	
Cyfanswm y gwariant ar weithlu TGCh	Lefel y gwariant ar weithlu TGCh yw 1.29 y cant o'r cyfanswm refeniw, a dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru. Mae bron i bedair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd Cymru gyfan (0.38 y cant).	

² Mae sgôr perfformiad yn seiliedig ar berfformiad cymharol â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill yng Nghymru. Mae Gwyrdd (●) yn dangos bod y perfformiad gyda'r mwyafrif cadarnhaol yng Nghymru, mae Melyn (●) yn dangos bod y perfformiad yn agos at y cyfartaledd Cymru gyfan, ac mae Coch (●) yn dangos bod y perfformiad gyda'r lleiafrif cadarnhaol yng Nghymru.

Dangosydd	Perfformiad bwrdd iechyd	Sgôr perfformiad ²
Gwariant cyfartalog fesul gweithiwr TGCh sy'n gyfwerth ag amser cyflawn	Y gwariant cyfartalog fesul gweithiwr TGCh sy'n gyfwerth ag amser cyflawn yw £37,421. Mae hynny'n uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef £35,467. Mae'n bosib bod hyn yn adlewyrchu mwy o gymysgedd o ran graddfa staff.	Dangosydd disgrifiadol
Mae'r lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch nag unrhyw fwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd arall yng Nghymru		
Cyfanswm lefelau staff TGCh	Cyfanswm nifer y staff TGCh fesul 1,000 o staff bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yw 29.3 o staff cyfwerth ag amser cyflawn. Dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru ac mae hefyd yn uwch o lawer na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 8.8.	
Lefelau staff technegol ar gyfer TGCh	Cyfanswm nifer y staff technegol ar gyfer TGCh fesul 1,000 o staff bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yw 7.7 o staff cyfwerth ag amser cyflawn. Dyma'r ail ffigur uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 4.0.	
Lefelau staff rheoli gwybodaeth	Cyfanswm nifer y staff rheoli gwybodaeth fesul 1,000 o staff bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yw 8.7 o staff cyfwerth ag amser cyflawn. Dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru ac mae hefyd yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 2.3.	
Lefelau staff – dadansoddwyr data (TGCh)	Cyfanswm nifer y dadansoddwyr data TGCh fesul 1,000 o staff bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yw 5.0 o staff cyfwerth ag amser cyflawn. Dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru ac mae hefyd yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 0.6.	
Er bod barn y staff yn gadarnhaol ar y cyfan mae lefel yr ymrwymiad i TGCh glinigol yn is na chyrrff iechyd eraill, ac mae'n bosib bod cyfle i integreiddio mwy		
Ymrwymiad y sefydliad i TGCh glinigol	Mae lefel yr ymrwymiad i TGCh glinigol yn is na'r cyfartaledd Cymru gyfan, a dyma'r lefel isaf yng Nghymru.	
Integreiddio systemau	Tair o'r 23 o systemau clinigol sydd â chysylltiadau dwyffordd at systemau gweinyddu cleifion (PAS) y bwrdd iechyd. Mae'r lefel hon o integreiddio yn llai ffafriol na sefydliadau eraill y GIG, ond mae'n bosib bod hyn yn adlewyrchu natur systemau gwybodaeth glinigol yr Ymddiriedolaeth.	Dangosydd disgrifiadol
Rheoli staff TGCh y tu allan i'r adran TGCh	Mae un aelod o'r staff yn cael ei reoli y tu allan i'r adran TGCh, ond mae hyn yn llai o'i gymharu â chyrrff eraill y GIG.	

Dangosydd	Perfformiad bwrdd iechyd	Sgôr perfformiad ²
Argraff y staff o'r ffordd mae materion TGCh yn cael eu trefnu a'u rheoli	Dim ond 6 o blith 13 (46 y cant) o'r staff oedd yn gadarnhaol am y ffordd mae materion TGCh yn cael eu trefnu a'u rheoli, ond 31 y cant oedd y cyfartaledd Cymru gyfan felly dyma'r trydydd ffigur uchaf yng Nghymru.	
Mae argaeledd cyfrifiaduron yn cymharu'n ffafriol â chyrff iechyd eraill yng Nghymru, ac mae'r staff yn fodlon â'r mynediad atynt		
Cyfanswm nifer y dyfeisiau (cyfrifiaduron, terfynellau ac ati) fesul meddyg	Nifer y dyfeisiau fesul meddyg cyfwerth ag amser cyflawn yw 17.9. Dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru ac mae hefyd yn uwch o lawer na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 6.2. Mae nifer y dyfeisiau hefyd yn uchel wrth ystyried yr holl staff.	
Mynediad at gyfrifiaduron (staff)	Ar gyfartaledd, dim ond 2 o blith 13 (15 y cant) o'r staff ddywedodd fod cael mynediad at gyfrifiaduron yn broblem yn ddyddiol neu'n wythnosol o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 33 y cant.	
Mae dibynadwyedd systemau yn achosi problemau i'r staff, ac nid oes digon o gofnodion o gyfnodau segur ar gael ar gyfer llawer o systemau		
Diffyg mynediad oherwydd problemau gyda'r systemau (staff)	Ar gyfartaledd, dywedodd 3 o blith 13 (23 y cant) o'r staff fod diffyg mynediad oherwydd bod systemau'n rhewi neu ddim ar gael yn achosi problem yn ddyddiol neu'n wythnosol, o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan sef 19 y cant.	
Cofnodion o gyfnodau segur bwriadol ac annisgwyl	Dim ond ar gyfer systemau'r gwasanaethau sgrinio a'r System Hyrwyddo Iechyd a Chlefydau Heintus y mae cofnodion rhannol o gyfnodau segur bwriadol ac annisgwyl ar gael.	
Lefel cyfnodau segur annisgwyl	Cyfanswm y cyfnod segur annisgwyl a nodwyd yn ystod 2013-14 oedd 5 awr.	Dangosydd disgrifiadol
Er bod bylchau o ran y trefniadau hyfforddi, mae'r staff yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio systemau yn fedrus ar y cyfan ac yn gallu dibynnu ar y wybodaeth sydd ar gael arnynt		
Hyfforddiant ar systemau gwybodaeth glinigol i weithwyr newydd	Nid yw'r holl weithwyr newydd a fydd angen defnyddio'r systemau gwybodaeth glinigol yn cael cynnig hyfforddiant ar y systemau hynny.	
Cael ID a chyfrineiriau mewngofnodi	Nid oes rhaid i staff clinigol gael sesiwn hyfforddi i gael id a chyfrinair mewngofnodi ar gyfer y systemau mae angen iddynt eu defnyddio.	

Dangosydd	Perfformiad bwrdd iechyd	Sgôr perfformiad ²
Defnyddio systemau TG yn fedrus	Roedd 9 o blith 13 (69 y cant) o'r staff yn teimlo'n hyderus eu bod yn gallu defnyddio'r systemau TG y mae angen iddynt eu defnyddio yn fedrus. Roedd hyn yn cyd-fynd â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 70 y cant.	
Hyfforddiant ar ddiogelu data a gofynion Caldicott	Mae hyfforddiant gloywi ynghylch gofynion Caldicott/diogelu data yn orfodol i'r holl staff.	
Hyfforddiant ar ansawdd data	Nid oes hyfforddiant ar ansawdd data ar gael, ond dywedodd 7 o blith 13 (54 y cant) o'r staff eu bod yn gallu dibynnu ar y wybodaeth yn y systemau clinigol. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 52 y cant.	
Hyfforddiant i staff clinigol dros dro	Rhoddir hyfforddiant i'r holl staff clinigol dros dro, ac mae hynny'n cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa ledled Cymru.	
Mae systemau TGCh glinigol yn helpu'r staff i gyflawni eu gwaith, ond mae'r staff yn teimlo bod y systemau'n anodd eu defnyddio		
Defnyddio systemau clinigol i gael gafael ar wybodaeth glinigol	Ar gyfartaledd, dywedodd 9 o blith 13 (69 y cant) o'r staff eu bod yn gallu dibynnu ar systemau cyfrifiadurol yn unig i gael gafael ar wybodaeth glinigol o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 22 y cant. Dyma'r ail ffigur uchaf yng Nghymru.	
Mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth glinigol	Dywedodd 5 o blith 9 (56 y cant) o'r staff ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth glinigol ar y system o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 82 y cant. Dyma'r ffigur isaf yng Nghymru.	
Defnyddio systemau clinigol i gyflawni tasgau clinigol	Ar gyfartaledd, dywedodd 6 o blith 13 (46 y cant) o'r staff eu bod yn gallu dibynnu ar systemau cyfrifiadurol yn unig i gyflawni tasgau clinigol o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 28 y cant. Dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru.	
Defnyddio rhaglenni pwrpasol a ddatblygwyd yn bersonol yn fewnol	Dywedodd 10 o blith 13 (77 y cant) o'r staff eu bod yn defnyddio rhaglenni a ddatblygwyd yn bersonol yn fewnol o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 43 y cant. Dyma'r ail ffigur uchaf yng Nghymru.	

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Argymhellion

12. Wrth gyflawni'r gwaith diagnostig hwn, dangosodd ein dadansoddiad bod angen i'r Ymddiriedolaeth ganolbwyntio ar wella'r elfennau canlynol yn benodol:

Ymrwymiad i TGCh glinigol

- A1 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth wella'r ymrwymiad corfforaethol i TGCh glinigol drwy sicrhau:
- bod y strategaeth TGCh yn gyfredol a bod y staff yn ei chefnogi;
 - bod mwy o ymgysylltu clinigol â'r agenda TGCh glinigol. Gallai hyn gynnwys:
 - sefydlu grŵp defnyddwyr TGCh glinigol;
 - ystyried y posibilrwydd o ddatblygu hyrwyddwyr clinigol;
 - gwahodd cynrychiolwyr clinigol i ymuno â'r grŵp llywio TGCh; a
 - datblygu'r cysylltiadau rhwng TGCh a'r rhaglen llywodraethu clinigol.
 - bod mwy o gydlynu rhwng materion TG a Rheoli Gwybodaeth; a
 - bod rhaglen glir ar gyfer rheoli buddiannau TGCh yn cael ei llunio.

Integreiddio

- A2 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau mwy o integreiddio rhwng y ddwy adran gwybodeg ac ystyried y posibilrwydd o gryfhau'r cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng systemau gwybodaeth glinigol yr Ymddiriedolaeth a phrif systemau gweinyddu cleifion y byrddau iechyd.

Hyfforddi staff

- A3 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth wneud yn siŵr bod hyfforddiant priodol ac amserol ar gael. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran gweithwyr newydd er mwyn sicrhau na fyddant yn defnyddio'r systemau os nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant priodol.

Argraffiadau negyddol y staff

- A4 Mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddeall a mynd i'r afael ag argraffiadau negyddol y staff o ran dibynadwyedd y systemau gwybodaeth glinigol, a pha mor hawdd ydynt i'w defnyddio, er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial y systemau.

Dibynadwyedd offer TGCh


- A5 Er mwyn deall faint o amser sy'n cael ei golli pan fydd systemau'n methu, mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cofnodion pendant yn cael eu cadw er mwyn cael gwybodaeth am gyfnodau segur annisgwyl ar ei holl systemau gwybodaeth glinigol.

Adroddiad diagnostig

Mae'r gwariant ar TGCh yn uwch nag unrhyw fwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd arall yng Nghymru

13. Roedd strategaeth flaenorol Llywodraeth Cymru, **Gwella Iechyd yng Nghymru**, yn 2001 yn cydnabod bod angen gwario o leiaf ddau y cant o gyfanswm y gwariant refeniw ar TGCh. Mae'r argymhelliad hwn yn dal yn berthnasol i gyrff y GIG ledled Cymru, ond mae'n dod yn fwyfwy anodd ei fodloni mewn cyfnod o doriadau ariannol.
14. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, dim ond 0.84 y cant o gyfanswm y gwariant refeniw a wariwyd ar TGCh ledled Cymru (**Arddangosyn 2**). Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwario cyfanswm o 3.8 y cant ar TGCh. Mae hynny'n uwch o lawer na'r argymhelliad o ddau y cant, a'r ffigur hwn gan yr Ymddiriedolaeth ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yw'r uchaf yng Nghymru.


Arddangosyn 2: Y cyfanswm a wariwyd ar TGCh fel cyfran o gyfanswm y gwariant refeniw yn 2013-14



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, cyfrifon ariannol Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd

15. Ers 2010-11 mae lefel gwariant yr Ymddiriedolaeth ar TGCh wedi cynyddu o £0.4 miliwn i £4 miliwn yn 2013-14 – ond dim ond gwybodaeth am wariant cyfalaf a gafwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Roedd y gwariant cyfalaf yn 2013-14 yn £1 miliwn. Mae hynny'n gynydd cadarnhaol ac yn fwy na dwbl yr hyn a wariwyd yn 2010-11. Hefyd, dywedodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi gallu denu oddeutu £0.4 miliwn o gyllid ychwanegol yn ystod 2013-14³. Mae hyn yn gadarnhaol, ond yn llai na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef £0.828 miliwn. Dywedwyd mai cyfalaf disgresiwn oedd yr holl gyllid ychwanegol hwn.
16. Yn ystod 2013-14, dywedodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi gwario £1.358 miliwn ar weithlu TGCh. Roedd hyn yn cyfateb i 34 y cant o gyfanswm y gwariant ar TGCh. Mae'r lefel hon o wariant ar weithlu TGCh fel cyfran o gyfanswm gwariant referniw yr Ymddiriedolaeth yn uwch na'r holl sefydliadau eraill ledled Cymru, ac yn uwch o lawer na'r cyfartaledd Cymru gyfan ([Arddangosyn 3](#)).

Arddangosyn 3: Gwariant ar weithlu TGCh fel cyfran o gyfanswm y gwariant referniw yn 2013-14



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, cyfrifon ariannol Byrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd

³ Incwm achlysurol a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn erbyn y categorïau 'Cyfalaf Disgresiwn', 'Cyllid NWIS', 'Grantiau Prosiect' ac 'Arall'.

-
17. Y gwariant cyfartalog fesul gweithiwr TGCh sy'n gyfwerth ag amser cyflawn yw £37,421⁴. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £35,467 o wariant cyfartalog. Mae'n siŵr bod hyn yn adlewyrchu cymysgedd o sgiliau gwahanol, neu gymysgedd o staff graddfa uwch, yn yr Ymddiriedolaeth.


Mae'r lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch nag unrhyw fwrdd ac ymddiriedolaeth ieuchyd arall yng Nghymru

18. Bydd gallu'r adran TGCh i fynd ati'n effeithiol i ddarparu a chefnogi seilwaith TGCh sy'n bodloni anghenion y sefydliad yn dibynnu ar faint o adnoddau a sgiliau priodol sydd ar gael. Mae systemau gwybodaeth glinigol hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth, ac felly mae'n bwysig bod gan yr adran TGCh ddigon o gapasiti i sicrhau bod y systemau'n ddibynadwy ac ar gael i'r rheini sydd eu hangen. Mae hefyd yn bwysig bod data'r systemau yn gywir, bod y data'n cael eu rheoli a'u cyflwyno'n briodol a'u bod yn cael eu dadansoddi a'u trosi i wybodaeth ddefnyddiol er mwyn cael y wybodaeth fusnes gywir i allu gwneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn y GIG.
19. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod ganddi 36.3 o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn yn yr adran TGCh⁵. Mae nifer y gweithwyr TGCh sydd gyfwerth ag amser cyflawn fesul 1,000 o gyfanswm staff bwrdd/ymddiriedolaeth ieuchyd yn uwch o lawer na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 29.3 o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn fesul 1,000 o staff bwrdd/ymddiriedolaeth ieuchyd ([Arddangosyn 4](#)), a dyma'r ffigur uchaf yng Nghymru.

⁴ Mae'r ffigur yn cynnwys unrhyw staff NWIS sy'n cael eu cyflogi gan y sefydliad.

⁵ Mae staff cyfwerth ag amser cyflawn yn cynnwys staff NWIS sy'n cael eu cyflogi gan gyrff y GIG. Yn ystod 2013-14, ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth gyflogi unrhyw staff NWIS.

Arddangosyn 4: Cyfanswm y staff TGCh (cyfwerth ag amser cyflawn) fesul 1,000 o staff bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd (cyfwerth ag amser cyflawn)




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, StatsCymru

20. Fel rhan o'n gwaith, ystyriwyd faint o staff â gwahanol sgiliau sy'n cael eu cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys:
- staff technegol gyda swyddogaethau sy'n cynnwys datblygu, gweithredu a rhedeg seilwaith craidd TGCh;
 - staff rheoli gwybodaeth, gan gynnwys dadansoddwyr data TGCh⁶, sydd â swyddogaethau sy'n cynnwys paratoi adroddiadau gwybodaeth reoli, creu a chynnal a chadw cronfeydd data ynghyd â dehongli a dadansoddi data; a
 - staff eraill, gan gynnwys staff desg gymorth, datblygwyr meddalwedd, rheolwyr prosiect a hyfforddwyr TGCh.
21. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud bod ganddi 10.5 o staff technegol sy'n gyfwerth ag amser cyflawn. Y lefel hon o staff technegol ar gyfer TGCh fesul 1,000 o gyfanswm staff bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yw'r ail uchaf yng Nghymru, sef 7.7 o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn fesul 1,000 o staff bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd (Arddangosyn 5).

⁶ Mae lefelau staff dadansoddwyr data yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys dadansoddwyr data TGCh cyffredinol yr adrannau Gwybodeg, ac nid ydynt yn cynnwys rhai'r adran wybodaeth.


Arddangosyn 5: Cyfanswm y staff Technegol ar gyfer TG (cyfwerth ag amser cyflawn) fesul 1,000 o staff bwrdd/yymddiriedolaeth iechyd (cyfwerth ag amser cyflawn)



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, StatsCymru

22. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dweud bod ganddi 10.8 o staff rheoli gwybodaeth sy'n gyfwerth ag amser cyflawn. Mae'r lefel hon o staff rheoli gwybodaeth fesul 1,000 o gyfanswm staff bwrdd/yymddiriedolaeth iechyd yn uwch o lawer na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 8.7 o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn fesul 1,000 o staff bwrdd/yymddiriedolaeth iechyd ([Arddangosyn 6](#)). Mae'n siŵr bod lefel y staff yn adlewyrchu rôl bwysig yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi cyrff eraill y GIG o ran agenda iechyd y cyhoedd, yn ogystal â'r angen i reoli gwybodaeth mewn amrywiaeth ehangach o systemau clinigol na'r rheini sydd ar gael mewn byrddau iechyd.


Arddangosyn 6: Cyfanswm y staff Rheoli Gwybodaeth (cyfwerth ag amser cyflawn)
fesul 1,000 o staff bwrdd/ymdiriedolaeth iechyd (cyfwerth ag amser cyflawn)



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, StatsCymru

- 23.** O ran y staff rheoli gwybodaeth, mae'r Ymdiriedolaeth wedi dweud bod ganddi 5.0 o ddadansoddwyr data sy'n gyfwerth ag amser cyflawn. Mae lefel y dadansoddwyr data fesul 1,000 o gyfanswm staff bwrdd/ymdiriedolaeth iechyd sy'n gyfwerth ag amser cyflawn hefyd yn uwch o lawer na'r cyfartaledd Cymru gyfan ([Arddangosyn 7](#)).

Arddangosyn 7: Cyfanswm y dadansoddwyr data (cyfwerth ag amser cyflawn)
fesul 1,000 o staff bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd (cyfwerth ag amser cyflawn)



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, StatsCymru

Er bod barn y staff yn gadarnhaol ar y cyfan mae lefel yr ymrwymiad i TGCh glinigol yn is na chyrrff iechyd eraill, ac mae'n bosib bod cyfle i integreiddio mwy

24. Mae'n bwysig bod uwch reolwyr a staff clinigol yn ymrwmo i TGCh er mwyn annog staff i ddefnyddio mwy ar y systemau gwybodaeth presennol ac i ymrwmo i ddatblygiadau yn y dyfodol. Fel rhan o'n gwaith, rydym wedi ystyried nifer o elfennau o ymarfer da er mwyn gweld a oes ymrwymiad i TGCh glinigol. Defnyddiwyd matrices sgoriau i bwysoli'r elfennau hyn er mwyn cael darlun cyffredinol o lefel yr ymrwymiad i TGCh yn yr Ymddiriedolaeth ([Arddangosyn 8](#)).

Arddangosyn 8: Cydymffurfio ag agweddau ar ymarfer da er mwyn dangos ymrwymiad cadarnhaol i TGCh glinigol


Elfen ymarfer da	Sgôr yr Ymddiriedolaeth ⁷
Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth TGCh ysgrifenedig sydd hefyd yn gyfredol (sgôr uchaf – 2)	1
Mae'r strategaeth TGCh, neu ddatblygiadau newydd ym maes TGCh, wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd ar lefel bwrdd yn ystod y 12 mis diwethaf (sgôr uchaf – 2)	2
Mae gan yr Ymddiriedolaeth grŵp llywio TGCh sy'n cynnwys aelod bwrdd (sgôr uchaf – 1)	1
Mae gan y grŵp llywio TGCh aelodau clinigol (sgôr uchaf – 1)	0
Mae'r strategaeth TGCh, neu ddatblygiadau newydd ym maes TGCh, wedi bod ar agenda cyfarfodydd ar lefel weithredol yn ystod y 12 mis diwethaf (sgôr uchaf – 2)	2
Mae'r arweinydd TGCh yn aelod o'r tîm Rheoli Gweithredol (sgôr uchaf – 3)	3
Mae materion TG a Rheoli Gwybodaeth yn cael eu cydlynu'n ganolog (sgôr uchaf – 2)	0
Mae gan staff clinigol gysylltiad â rhaglen TGCh yr ymddiriedolaeth, ac mae hynny'n cynnwys dewis hyrwyddwyr clinigol (sgôr uchaf – 3)	2
Mae dealltwriaeth dda o seilwaith technegol y sefydliad (sgôr uchaf – 1)	1
Mae rhaglen ysgrifenedig yn bodoli ar gyfer rheoli buddiannau TGCh (sgôr uchaf – 3)	0
Mae'r arweinydd TGCh yn ymwneud â'r rhaglen Llywodraethu Clinigol (sgôr uchaf – 3)	0
Mae grŵp defnyddwyr TGCh glinigol yn bodoli (sgôr uchaf – 2)	0
Mae system ar gael i gasglu adborth y staff yn rheolaidd (sgôr uchaf – 2)	2
Cyfanswm sgôr (27 yw'r sgôr uchaf posib)	14

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

⁷ Mae dadansoddiad manwl o'r egwyddor sgoriau wedi'i gynnwys yn [Atodiad 2](#).

25. Yr Ymddiriedolaeth sydd â'r lefel isaf yng Nghymru o ran ymrwymiad i TGCh (Arddangosyn 9). Mae hynny'n bennaf oherwydd llai o ymgysylltu clinigol â'r agenda TGCh na chyrrff eraill y GIG.

Arddangosyn 9: Cyfanswm sgôr ymrwymiad i TGCh glinigol



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

26. Mae gan yr Ymddiriedolaeth 23 o systemau gwybodaeth glinigol ar hyn o bryd, ac mae 8 o'r rheini'n cael eu darparu gan NWIS. Fel rhan o'n gwaith, gofynnwyd i'r Ymddiriedolaeth ddweud i ba raddau y mae'r systemau yn cydweithio â systemau gweinyddu cleifion y bwrdd iechyd er mwyn i sefydliadau allu rhannu gwybodaeth. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod gan dair o'r 23 o systemau gwybodaeth glinigol hynny gysylltiadau dwyffordd, fod gan chwe ohonynt gysylltiadau unffordd⁸, a bod gweddill y systemau yn rhai unigol (Arddangosyn 10). O ystyried natur rhai o'r systemau gwybodaeth glinigol, mae'n siŵr ei bod yn briodol nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau â systemau gweinyddu cleifion y bwrdd iechyd. Fodd bynnag gallai nifer o

⁸ Mae cysylltiadau dwyffordd yn golygu bod modd diweddarau a rhannu gwybodaeth – fel demograffeg cleifion – i'r ddau gyfeiriad rhwng systemau gweinyddu cleifion a'r system gwybodaeth glinigol. Gyda chysylltiadau unffordd dim ond i un cyfeiriad y mae modd diweddarau a rhannu gwybodaeth, a hynny fel arfer o systemau gweinyddu cleifion i'r system gwybodaeth glinigol. Felly os bydd gwybodaeth yn cael ei diweddarau ar y system gwybodaeth glinigol ni fydd yn cael ei diweddarau'n awtomatig ar systemau gweinyddu cleifion, sy'n creu risg bod data'r ddwy system yn anghyson â'i gilydd.

systemau, yn enwedig y rheini sydd wedi'u cysylltu â'r gwasanaethau sgrinio, elwa o gysylltiadau gwell er mwyn lleihau'r risg bod data'r ddwy system yn anghyson.

Arddangosyn 10: I ba raddau mae systemau gwybodaeth glinigol yn cael eu hintegreiddio â'r Systemau Gweinyddu Cleifion yng nghyffwrdd eraill y GIG

System glinigol	
Sgrinio am Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen (AAA)	Dim cysylltiad
Sgrinio'r Coluddyn (BSMIS)	Dim cysylltiad
Sgrinio Serfigol (NHAIS)	Dim cysylltiad
Sgrinio'r Fron (NBSS)	Dim cysylltiad
Clyw Babanod Newydd-anedig (AWNBHS)	Dim cysylltiad
Smotiau Gwaed Babanod Newydd-anedig (NBSW)	Dim cysylltiad
Archwiliad Serfigol – Sgrinio Serfigol	Dim cysylltiad
Archwiliad Malaenedd – Sgrinio'r Fron	Dim cysylltiad
Ysgrifennu Llythyrau – Sgrinio'r Fron	Dim cysylltiad
Patholeg Sgrinio Serfigol	Dim cysylltiad
LIMS Microbioleg – TrakCare	Cysylltiad dwyffordd
LIMS Microbioleg – Telepath	Cysylltiad dwyffordd
LIMS Microbioleg – Masterlab	Cysylltiad dwyffordd
Hysbysiadau Labordy Microbioleg – LabExpert	Cysylltiad unffordd
Storfa adroddiadau Labordy Microbioleg – Datastore	Cysylltiad unffordd
Rheoli Ansawdd Microbioleg – Notes	Dim cysylltiad
Rheoli Clefydau Heintus – Gwarchod Iechyd	Cysylltiad unffordd
Goruchwyllo Iechyd Rhywiol – Gwarchod Iechyd	Cysylltiad unffordd
Rheoli achosion – SSW	Dim cysylltiad
Arsyllfa Anomaledau Cynhenid	Dim cysylltiad
Cofrestrfa Canser Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU)	Cysylltiad unffordd
Arolygaeth Ffliw – Gwarchod Iechyd	Cysylltiad unffordd
Digwyddiad Amgylcheddol Gwarchod Iechyd – rheoli achosion	Dim cysylltiad

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

27. Fel rhan o strwythur yr Ymddiriedolaeth mae gan adrannau TG a Rheoli Gwybodaeth y gwasanaethau sgrinio drefniadau rheoli ar wahân i weddill rhaglenni a gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoli'n bennaf drwy ddau dîm TGCh. Fodd bynnag dywedodd yr Ymddiriedolaeth ei bod hefyd wedi ariannu un aelod o staff o'r tu allan i'r adran TGCh, a oedd gyfwerth ag amser cyflawn, sy'n rhoi cefnogaeth benodol i'r systemau Gwarchod Iechyd, yr Arsyllfa a WCISU. Mae'r swydd hon yn cyfrif am 1.3 y cant o gyfanswm gwariant yr Ymddiriedolaeth ar TGCh, ond mae hyn yn is o lawer na'r cyfartaledd Cymru gyfan – sef 9.9 y cant – a dyma'r ffigur isaf yng Nghymru.
28. Fel rhan o'n harolwg staff, gofynnwyd i'r staff beth oedd eu barn am yr adnoddau TGCh a oedd ar gael yn eu sefydliad. Yn benodol, gofynnwyd am eu barn ar y canlynol:
- defnydd y sefydliad o'r cyfleusterau TGCh;
 - a yw'r systemau gwybodaeth glinigol wedi gwella'r gofal a roddir i gleifion; ac
 - a yw adnoddau TGCh y sefydliad yn well na'r adnoddau mewn sefydliadau eraill lle'r oeddent yn arfer gweithio.
29. At ei gilydd, cafwyd ymateb cadarnhaol gan 6 o blith 13 (46 y cant) o staff yr Ymddiriedolaeth o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 31 y cant⁹. Dyma oedd y drydedd gyfradd ymateb cadarnhaol uchaf yng Nghymru. Yr hyn a gafodd yr ymateb lleiaf cadarnhaol gan y staff oedd a yw'r adnoddau TGCh yn well na'r hyn a oedd ar gael mewn sefydliadau eraill lle'r oeddent yn arfer gweithio, ac a yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd da o'r cyfleusterau TG (Arddangosyn 11). Mae'r sylwadau testun rhydd a gafwyd gan staff yr Ymddiriedolaeth fel rhan o'r arolwg, a oedd yn rhoi rhywfaint o gyd-destun i'w sylwadau, wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

Arddangosyn 11: Canran y staff a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau canlynol ynghylch adnoddau TGCh yr Ymddiriedolaeth

	Yr ymddiriedolaeth hon	Cymru gyfan (ddim yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru)
Mae'r sefydliad hwn yn gwneud defnydd da o'r cyfleusterau TG ar hyn o bryd	33.3	24.2
Mae'r systemau TG a ddatblygwyd yn y sefydliad hwn wedi gwella'r gofal a roddir i gleifion	72.7	46.8
Mae'r adnoddau TG yn y sefydliad hwn yn well na'r adnoddau TG rydw i wedi'u gweld yn bersonol mewn sefydliadau eraill	33.3	20.7


Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

⁹ Nid yw'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan o ran yr arolygon staff yn cynnwys ymatebion Iechyd Cyhoeddus Cymru gan fod cynulleidfa darged yr arolygon yn wahanol. Ond mae'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan wedi cael eu cynnwys er mwyn gallu cymharu'n ehangach.

Mae argaeledd cyfrifiaduron yn cymharu'n ffafriol â chyrff iechyd eraill yng Nghymru, ac mae'r staff yn fodlon â'r mynediad atynt

30. Er mwyn i staff allu defnyddio systemau gwybodaeth glinigol, mae'n bwysig ei bod yn hawdd cael mynediad at ddyfeisiau (cyfrifiaduron, terfynellau ac ati) mewn mannau clinigol. Rydym wedi adolygu nifer y dyfeisiau sydd ar gael fesul meddyg cywerth ag amser cyflawn a nyrs cywerth ag amser cyflawn ledled Cymru ([Arddangosyn 12](#)). O ran yr Ymddiriedolaeth, dim ond nifer y dyfeisiau fesul meddyg cywerth ag amser cyflawn a ystyriwyd, a dyma'r lefel uchaf yng Nghymru. Byddai cyfrifiad tebyg o nifer y dyfeisiau, wedi'i seilio ar yr holl staff, yn dangos mai'r Ymddiriedolaeth sydd â'r lefel uchaf yng Nghymru o ran hynny hefyd.

Arddangosyn 12: Cyfanswm nifer y dyfeisiau fesul meddyg (cywerth ag amser cyflawn)



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, StatsCymru

31. Fel rhan o'n harolygon staff, gofynnwyd i'r staff pa mor aml maent yn methu defnyddio cyfrifiadur i gyflawni tasgau ac i gael gafael ar wybodaeth oherwydd prinder cyfrifiaduron. Byddai canlyniadau arolwg staff yr Ymddiriedolaeth yn dangos nad yw mynediad at gyfrifiaduron yn broblem ([Arddangosyn 13](#)).

Arddangosyn 13: Canran y staff a ddywedodd eu bod yn methu cyflawni tasgau a chael gafael ar wybodaeth yn wythnosol neu'n amlach oherwydd prinder cyfrifiaduron

	Yr Ymddiriedolaeth hon	Cymru gyfan (staff meddygol)	Cymru gyfan (staff nyrsio)
Ar y ward		57	48
Mewn ystafelloedd cleifion allanol		20	
Yn y swyddfa/yr adran	15	22	

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

Mae dibynadwyedd systemau yn achosi problemau i'r staff, ac nid oes digon o gofnodion o gyfnodau segur ar gael ar gyfer llawer o systemau

32. Er mwyn helpu'r broses o ddarparu gwasanaethau, mae'n rhaid i'r systemau gwybodaeth glinigol fod yn ddibynadwy hefyd. Os bydd defnyddwyr y systemau yn cael problemau (go iawn neu dybiedig) yn gyson wrth ddefnyddio'r systemau, bydd y buddiannau o ddefnyddio systemau electronig yn lleihau'n sylweddol gan y bydd y staff yn gyndyn o'u defnyddio neu bydd yn arwain at greu systemau paralel, fel cadw cofnodion papur.
33. Yn ôl ein harolwg staff, dywedodd 3 o blith 13 (23 y cant) o'r staff eu bod yn methu defnyddio cyfrifiadur yn yr adran yn wythnosol neu'n amlach oherwydd bod y system wedi rhewi neu ddim ar gael. Mae'r gyfran hon ychydig yn uwch na'r sefyllfa ar gyfer Cymru gyfan ([Arddangosyn 14](#)).

Arddangosyn 14: Canran y staff a ddywedodd eu bod yn methu defnyddio cyfrifiadur yn wythnosol neu'n amlach oherwydd bod y system wedi rhewi neu ddim ar gael


	Yr Ymddiriedolaeth hon	Cymru gyfan (staff meddygol)	Cymru gyfan staff nyrso
Ar y ward		24%	28%
Mewn ystafelloedd cleifion allanol		20%	
Yn y swyddfa/yr adran	23%	19%	

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

34. Er mwyn monitro i ba raddau nad yw'r systemau gwybodaeth glinigol ar gael i'w defnyddio, dylai'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd fod yn cadw cofnod o'r cyfnodau segur bwriadol ac annisgwyl. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu cadarnhau bod cofnodion rhannol o gyfnodau segur yn cael eu cadw ar gyfer holl systemau'r gwasanaethau sgrinio – gan gynnwys methiant o ran y meddalwedd, y rhwydwaith a'r gweinydd. O ran gweddill yr Ymddiriedolaeth, dim ond y systemau Hyrwyddo Iechyd a Chlefydau Heintus oedd â chofnodion cyflawn o gyfnodau segur. Nid oes unrhyw gofnodion ar gael ar gyfer unrhyw un o'r systemau eraill.
35. O ran y cofnodion a oedd ar gael, nododd yr Ymddiriedolaeth un cyfnod segur annisgwyl ar system Sgrinio'r Fron yn ystod 2013-14, ac fe barodd am awr. Mewn rhannau eraill o'r gwasanaeth, nododd yr Ymddiriedolaeth un cyfnod segur annisgwyl ar y modiwl rheoli achosion yn ei system Gwarchod Iechyd – Digwyddiad Amgylcheddol. Parodd y cyfnod segur bedair awr. Cofnododd yr Ymddiriedolaeth hefyd ddau gyfnod segur bwriadol ar ei system Clefydau Heintus yn ystod 2013-14. Parodd y cyfnod segur bwriadol hwn bedair awr hefyd. Nid oes modd i ni gymharu cyfnodau segur annisgwyl ledled Cymru oherwydd bylchau mewn cofnodion o gyfnodau segur.
36. Mae oedran offer yn gallu bod yn ffactor fawr sy'n cyfrannu at fethiannau a chyfnodau segur systemau. O ran y wybodaeth a oedd ar gael, dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod oedran cyfartalog offer yn amrywio o dair blynedd ar gyfer cyfrifiaduron a hyd at bum mlynedd ar gyfer systemau gweithredu bwrdd gwaith. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyrrff eraill y GIG. Fel rhan o'n gwaith, rydym wedi canfod faint o'r offer TGCh presennol ledled Cymru oedd wedi cyrraedd 'diwedd eu hoes'¹⁰ ar ddiwedd mis Mawrth 2014 (Arddangosyn 15). Gofynnwyd i fyrddau iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre gyflwyno'r data hyn i Lywodraeth Cymru fel rhan o ymarfer casglu data yn 2014; ond, nid oedd rhaid i'r Ymddiriedolaeth wneud hynny.

¹⁰ Diffinnir 'diwedd eu hoes' fel offer sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ddefnyddiol, ac y byddai'n costio gormod i'w trwsio.

Arddangosyn 15: Cost gros (£000) newid yr offer TGCh a oedd wedi cyrraedd 'diwedd eu hoes' ar 31 Mawrth 2014



Ffynhonnell: Tystiolaeth a gyflwynwyd gan y GIG i Lywodraeth Cymru

Er bod bylchau o ran y trefniadau hyfforddi, mae'r staff yn teimlo eu bod yn gallu defnyddio systemau yn fedrus ar y cyfan ac yn gallu dibynnu ar y wybodaeth sydd ar gael arnynt


37. Er mwyn gallu gwneud y defnydd gorau o'r systemau gwybodaeth glinigol sydd ar gael i staff clinigol ac i ddeall y gofynion a roddir arnynt o ran ansawdd data a diogelu data, mae angen rhoi lefel briodol o anghenion hyfforddi ar waith.
38. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth na chynigir hyfforddiant ar ei systemau gwybodaeth glinigol i'r holl weithwyr newydd a fydd yn gorfod defnyddio'r systemau hynny. Nodwyd hefyd nad oes rhaid i'r staff clinigol gael sesiwn hyfforddi i gael id a chyfrinair mewngofnodi ar gyfer y systemau mae angen iddynt eu defnyddio. Mae hyn yn wahanol i drefniadau'r mwyafrif o'r sefydliadau eraill a holwyd. Er hynny gwelwyd yn ein harolwg staff bod 9 o blith 13 (69 y cant) o'r staff yn teimlo'n hyderus eu bod yn gallu defnyddio'r systemau TG mae angen iddynt eu defnyddio fel rhan o'u swydd yn fedrus. Mae'r ffigur hwnnw'n debyg i'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 70 y cant.

-
39. Mae'r arolwg staff yn awgrymu eu bod yn teimlo bod oedi cyn cael hyfforddiant, ac mae'n bosib bod hynny'n egluro pam mae staff yn gallu cael cyfrineiriau cyn cael hyfforddiant. Yn yr Ymddiriedolaeth, roedd 6 o blith 13 (46 y cant) o'r staff a fynegodd eu barn yn anghytuno â'r datganiad, 'Does dim rhaid i staff newydd aros i gael yr hyfforddiant/cyfrineiriau angenrheidiol i ddefnyddio'r systemau TG'. Er hynny, mae'r ffigur hwn yn well na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 60 y cant.
 40. Pan ofynnwyd i'r Ymddiriedolaeth, dywedodd fod hyfforddiant gloywi ar gyfer diogelu data a gofynion Caldicott yn ofynnol i'r holl staff. Ni roddir hyfforddiant ar ansawdd data, ond mae'r trefniadau hyn yn debyg iawn i'r rheini sydd ar waith yng nghyrrff eraill y GIG ledled Cymru. Yn ddi-ddorol iawn, dywedodd 7 o blith 13 (54 y cant) o'r staff eu bod yn gallu dibynnu ar y wybodaeth ar y systemau clinigol. Roedd hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 52 y cant. Hefyd, dywedodd 6 o blith 13 (46 y cant) o'r staff fod y wybodaeth ar y systemau TG yn gywir. Roedd hyn hefyd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 42 y cant. Yn yr holl sefydliadau a oedd yn rhan o'n hadolygiad, mae hyfforddiant ar ddiogelu data a gofynion Caldicott yn orfodol ym mhob sefydliad ond un. Dim ond mewn un sefydliad yng Nghymru mae hyfforddiant ar ansawdd data yn ofynnol, ond mae'n ddewisol mewn pedwar arall.
 41. Yn ogystal â staff parhaol, mae'n bwysig bod staff dros dro a gyflogir i gweithio mewn meysydd clinigol hefyd yn cael yr hyfforddiant angenrheidiol. Cadarnhaodd yr Ymddiriedolaeth fod yr holl staff dros dro yn cael cynnig hyfforddiant fel mater polisi, ac mae hynny'n ymarfer da.

Mae systemau TGCh glinigol yn helpu'r staff i gyflawni eu gwaith, ond mae'r staff yn teimlo bod y systemau'n anodd eu defnyddio

42. Fel rhan o'n harolwg staff gofynnwyd i'r staff i ba raddau maent yn gallu defnyddio systemau TGCh i gael gafael ar wybodaeth glinigol ac i gyflawni tasgau clinigol, heb fod angen iddynt ddibynnu ar systemau papur. Yn y byrddau iechyd, roedd hyn yn cynnwys ystod eang o wybodaeth glinigol i gefnogi gwaith mewn adrannau cleifion allanol ac ar wardiau. Er mwyn gallu cymharu'n eang ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, gofynnwyd i'r staff i ba raddau mae'r systemau yn eu helpu yn fwy cyffredinol i gofnodi a chael gafael ar wybodaeth yn electronig.
43. Roedd 7 o blith 13 (54 y cant) o'r staff yn cytuno bod y systemau'n eu helpu i gofnodi gwybodaeth yn electronig ac nad oes angen iddynt ddefnyddio rhyw lawer ar nodiadau papur, os o gwbl. Dywedodd 9 o blith 13 (69 y cant) o'r staff eu bod, fel arfer, yn gallu cael y wybodaeth angenrheidiol ar y systemau cyfrifiadurol. O ran y rheini sy'n gallu cael gafael ar y wybodaeth angenrheidiol, dywedodd 5 o blith 9 (56 y cant) o'r staff ei bod yn gymharol hawdd, neu'n hawdd iawn, dod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol.
44. Ledled Cymru, dim ond 22 y cant o'r staff (meddygon) ddywedodd eu bod yn gallu defnyddio cyfrifiadurol yn unig i gael gafael ar wybodaeth glinigol. Er hynny, dywedodd 82 y cant o'r rheini sy'n defnyddio'r systemau cyfrifiadurol ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth ([Arddangosyn 16](#)).

Arddangosyn 16: Cyfradd yr achosion mae staff yn defnyddio cyfrifiadur i gael gafael ar wybodaeth glinigol, a pha mor hawdd yw dod o hyd i'r wybodaeth honno



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

45. Mae lefel gallu staff sy'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth i ddibynnu ar gyfrifiadur i gyflawni tasgau clinigol yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan, gyda 6 o blith 13 (46 y cant) o'r staff yn ymateb yn gadarnhaol o'i gymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 28 y cant. I'r Ymddiriedolaeth yn benodol, gofynnwyd hefyd i ba raddau mae'r systemau clinigol yn gadael iddynt dreulio mwy o amser ar yr hyn sy'n bwysig. Dim ond 1 o blith 13 (8 y cant) o'r staff wnaeth ymateb yn gadarnhaol.
46. Nododd ein harolwg staff hefyd fod 10 o blith 13 (77 y cant) o'r staff yn dweud eu bod yn defnyddio rhaglenni a ddatblygwyd yn bersonol yn fewnol i fodloni anghenion, fel llyfrau log colegau proffesiynol. Mae hyn yn cymharu â'r cyfartaledd Cymru gyfan, sef 43 y cant. Dywedodd 5 o blith 10 (50 y cant) o'r staff hyn eu bod yn defnyddio'r rhaglenni yn ddyddiol neu'n wythnosol.

Atodiad 1

Dull archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh rhwng mis Medi 2014 a mis Mawrth 2015. Roedd yr adolygiad diagnostig yn cynnwys yr holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ledled Cymru, ac eithrio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae manylion y dull archwilio wedi'u nodi isod:

Adolygu dogfennau

Gwnaethom gais am amrywiaeth o ddogfennau gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, ac aethom ati i'w dadansoddi. Roedd y rhain yn cynnwys y strategaeth TGCh, cofnodion Bwrdd a oedd yn ystyried datblygiadau TGCh, cofnodion grwpiau llywio TGCh, polisiau sy'n ymwneud â TGCh, mapiau systemau TGCh a'r sefyllfa o ran cyllidebau.

Arolwg casglu data

Gofynnwyd i'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd lenwi arolwg i roi manylion am eu gwariant, eu lefelau staff a'u hyfforddiant o ran TGCh. Gofynnwyd hefyd i'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd roi manylion am systemau gwybodaeth glinigol a'r seilwaith TGCh. Cafodd yr arolwg i lechyd Cyhoeddus Cymru ei gyflwyno ar 19 Hydref 2014.

Arolwg staff

Cafodd arolwg am amrywiaeth o faterion TG ei anfon at benaethiaid adrannau sy'n gweithio yn adrannau clinigol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yn wahanol i'r arolygon a gynhaliwyd yn y byrddau iechyd ac yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a gafodd eu hanfon at yr holl staff meddygol a oedd yn gweithio mewn adrannau arbenigol ar wardiau ac at staff nyrsio Band 5-7 a oedd yn gweithio ar wardiau yn y prif ysbytai cyffredinol dosbarth. Cafodd yr arolwg i staff Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei anfon yn electronig ar 1 Mai 2015. Cafwyd ymateb gan 13 o staff Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Atodiad 2

Yr Egwyddor Sgoriau a ddefnyddiwyd i fesur ymrwymiad i TGCh glinigol

Agweddau ar ymarfer da i ddangos ymrwymiad i TGCh glinigol, gydag ymatebion posib	Sgôr pob ymateb
A oes gan y bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd strategaeth TGCh ysgrifenedig, sydd hefyd yn gyfredol? A: Mae strategaeth yn bodoli, ac mae tystiolaeth bod y staff yn ei chefnogi B: Mae strategaeth yn bodoli, ond does dim tystiolaeth bod y staff yn ei chefnogi C: Mae strategaeth yn bodoli, ond dydy hi ddim yn gyfredol D: Mae tystiolaeth bod strategaeth yn cael ei datblygu E: Does dim strategaeth wedi cael ei hysgrifennu/llunio ers mis Ebrill 2011	2 1.5 1 0.5 0
A yw'r strategaeth TGCh, neu ddatbygiadau newydd ym maes TGCh, wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd lefel bwrdd yn ystod y 12 mis diwethaf? A: Ydy B: Nac ydy	2 0
A oes gan y bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd grŵp llywio TGCh sy'n cynnwys aelod bwrdd? A: Oes B: Nac oes C: Does dim grŵp llywio TGCh yn bodoli	1 0 0
A yw grŵp llywio TGCh y bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yn cynnwys aelodau clinigol? A: Ydy B: Nac ydy C: Does dim grŵp llywio TGCh yn bodoli	1 0 0
A yw'r strategaeth TGCh, neu ddatbygiadau newydd ym maes TGCh, wedi bod ar agenda cyfarfodydd ar lefel weithredol yn ystod y 12 mis diwethaf? A: Ydy B: Nac ydy	2 0
A yw'r arweinydd TGCh yn aelod o'r tîm Rheoli Gweithredol (h.y. y tîm sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr? A: Ydy B: Nac ydy, ond mae'r arweinydd TGCh yn atebol yn uniongyrchol i aelod o'r tîm rheoli C: Nac ydy, a dydy'r arweinydd TGCh ddim yn atebol yn uniongyrchol i unrhyw aelod o'r tîm rheoli	3 1 0
I ba raddau mae materion TG a Gwybodaeth yn cael eu cydlynu? A: Maen nhw'n rhan o'r un adran B: Maen nhw'n cael eu rheoli ar wahân, ond yn atebol i'r un cyfarwyddwr C: Maen nhw'n cael eu rheoli ar wahân, ac yn atebol i gyfarwyddwyr gwahanol	2 1 0

Agweddau ar ymarfer da i ddangos ymrwymiad i TGCh glinigol, gydag ymatebion posib	Sgôr pob ymateb
<p>Faint o gysylltiad sydd gan staff clinigol â rhaglen TGCh yr Ymddiriedolaeth?</p> <p>A: Mae hyrwyddwyr clinigol wedi cael eu dewis, ac yn arwain y newid</p> <p>B: Cefnogaeth glinigol weithredol e.e. cynrychiolaeth ar weithgorau</p> <p>C: Cysylltiad bach e.e. mynychu rhai cyfarfodydd</p> <p>D: Mae trefniadau i sicrhau cysylltiad staff clinigol ar y gweill</p> <p>E: Dim</p>	<p>3</p> <p>2</p> <p>1</p> <p>1</p> <p>0</p>
<p>A oes gan y bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd restr o'i seilwaith technegol?</p> <p>A: Oes</p> <p>B: Nac oes, ond mae un yn cael ei chreu ar hyn o bryd</p> <p>C: Nac oes</p>	<p>1</p> <p>0.5</p> <p>0</p>
<p>A oes gan y bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd raglen ysgrifenedig ar gyfer rheoli buddiannau TGCh?</p> <p>A: Oes, mae'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd</p> <p>B: Oes, ar gam cynharach yn y broses o ddatblygu systemau'r bwrdd iechyd</p> <p>C: Nac oes, ond mae un yn cael ei datblygu ar hyn o bryd</p> <p>D: Nac oes</p>	<p>3</p> <p>2</p> <p>1</p> <p>0</p>
<p>I ba raddau mae'r arweinydd TGCh yn ymwneud â Llywodraethu Clinigol?</p> <p>A: Mae'n cydweithio ar rai prosiectau</p> <p>B: Mae'n rhoi gwybodaeth i'r adran Llywodraethu Clinigol yn rheolaidd</p> <p>C: Mae'n mynychu cyfarfodydd perthnasol</p> <p>D: Ddim yn ymwneud â hynny</p>	<p>3</p> <p>2</p> <p>1</p> <p>0</p>
<p>A oes gan yr Ymddiriedolaeth grŵp defnyddwyr TGCh glinigol?</p> <p>A: Oes</p> <p>B: Nac oes</p>	<p>2</p> <p>0</p>
<p>Ar wahân i unrhyw grwpiau defnyddwyr TGCh, a oes system i staff roi adborth ar faterion TGCh, e.e. arolygon defnyddwyr, briffio, tudalen mewnwyd i wneud sylwadau neu gyfleoedd eraill i wneud sylwadau?</p> <p>A: Oes</p> <p>B: Nac oes</p>	<p>2</p> <p>0</p>

Atodiad 3

Sylwadau testun rhydd a gyflwynwyd fel rhan o'r arolwg staff

Fel rhan o'r arolwg staff, gofynnwyd i'r rhai a oedd yn ymateb gyflwyno unrhyw sylwadau testun rhydd a oedd ganddynt ynghylch materion technoleg gwybodaeth yn eu sefydliad. Mae ymatebion staff yr Ymddiriedolaeth wedi'u nodi isod.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (neu'r rhan rydw i'n gyfarwydd â hi yn Microbioleg/Gwarchod Iechyd) wedi gwneud datblygiadau arloesol anhygoel sy'n unigryw ledled y byd – yr enghraifft orau i mi yw DataStore. Rwy'n defnyddio'r system yn wythnosol i helpu i ddatrys problemau clinigol a datblygu. Byddwn i'n cael trafferth gwneud fy ngwaith heb y system. Wedi dweud hynny rydw i hefyd yn defnyddio llawer ar gronfeydd data Groupware, ond byddai'n well gen i petaem yn defnyddio mwy ar y llwyfan Nodiadau cynhenid ond penderfynodd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol blaenorol beidio â gwneud hynny.

Sicrhau ei bod yn hawdd mewngofnodi ar draws ymddiriedolaethau, er mwyn gallu mewngofnodi unrhyw le yn y wlad.

Rydw i wedi cael digon ar orfod gweld cleifion heb fod gen i ddigon o wybodaeth. Dydw i ddim yn deall pam mae'n rhaid i mi ddefnyddio beiro a phapur, a gweld wedyn bod fy nghofnodion wedi cael eu ffeilio'n anghywir.

Mae gweithio ar ddau safle a rhwng byrddau iechyd yn arwain at broblemau. Pam na all Cymru gyfan ddefnyddio'r un system TG, ar yr amod ei bod cystal ag un PHS Cymru!

Mae gwir angen system labordy arnon ni sy'n gallu cynnwys dogfennau sydd wedi'u sganio ac wedi'u hanfon dros e-bost a'u hanfon ymlaen i wahanol ryngwynebau. Mae angen system glinigol arnon ni hefyd a fydd yn archwilio newidiadau/"delta" er mwyn dod o hyd i newidiadau dros amser, neu a fydd o leiaf yn ein galluogi i weld cyfres o ganlyniadau mewn ffordd ddibynadwy, gyflym a hawdd. Dydy ein LIMS presennol ni ddim yn gwneud dim un o'r rhain, ac felly'n mae'n achosi risg clinigol ac oedi. Yn olaf, mae angen i'n cronfa ddata LIMS ni fod yn fwy dibynadwy, yn fwy hyblyg ac ar gael yn ehangach (nid yw'n addas gorfod gwneud cais am ddangosfyrddau chwilio newydd bob tro y bydd angen archwilio neu ymchwilio i fater newydd). Rydw i'n aml yn methu cael mynediad neu gael unrhyw adborth ar fy ngheisiadau. Mae'n ymddangos hefyd ei bod yn anodd iawn gwybod gyda phwy y dylid cysylltu ynghylch unrhyw fater, ac mae'n teimlo ein bod yn cael ein pasio o un person i'r llall wrth geisio datrys problemau / gwella systemau. Rydw i wedi sylwi bod NWIS yn barod i helpu OS byddwch chi'n llwyddo i gael gafael ar y person iawn. Ond, yn rhy aml, does neb yn derbyn cyfrifoldeb nac yn ceisio helpu, yn enwedig pan fyddwch chi'n ceisio sôn am broblemau â rhyngwynebau (e.e. rhwng ein LIMS ni a'r safleoedd porthol clinigol). Mae hyn yn rhwystredig dros ben! Mae'n rhaid delio hefyd â rhwystrau enfawr ac anorchfygol oherwydd biwrocratiaeth a ffurflenni di-ri er mwyn gwella unrhyw beth. Hoffwn i'r strwythurau, yr hierarchaethau a'r cyfrifoldebau fod yn llawer cliriach, ac yn ddelfrydol mae angen un pwynt cyswllt arnon ni ar gyfer TG (drwy ffurflen ar-lein o bosib?) a fydd wedyn yn gallu trosglwyddo ymholiadau unigol i'r timau priodol. Byddai hyn yn arbed llawer o amser clinigol/gwyddonol, ac yn gallu arwain at fod yn fwy effeithlon o lawer.

Pan fydd problemau'n codi, dydy'r gefnogaeth sydd ar gael ddim yn berffaith. Nid yw'n ymddangos bod pawb yn gwerthfawrogi'r brys pan fydd problem yn amharu ar y gwasanaeth clinigol – mae hyn bob amser yn arwain at oedi. Dydy unrhyw ymyriad gan y tîm cymorth TG byth yn gweithio'r tro cyntaf – dydy pethau byth yn gweithio'n iawn, ac mae'n rhaid cael ail ymweliad. Mae staff y tîm cymorth TG bob amser yn gwrtais ac yn gymwynasgar, ond dydy hi ddim yn ymddangos bod ganddyn nhw ffordd o wneud yn siŵr bod popeth yn gweithio cyn gadael.

Mae'r cofrestrwyr wedi cael problemau enfawr wrth geisio cael ID a chyfrineiriau pan fyddant yn ailymuno â'r adran, ac wedi wynebu oedi annerbyniol. Mae'n aml yn cymryd llawer iawn o amser i ddatrys problemau drwy NWSI, ac weithiau'n cymryd gormod o amser i fod yn ddefnyddiol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru